

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD A'R NOS LUN 24AIN O FAI 2021 TRWY "MICROSOFT TEAMS" AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL: Y Cyngorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Arwel Davies, Bari Evans, Stan Williams, Cyngorydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwr Geraint Jones, Ceri Davies, Hywel Davies a Falmai Evans.

3. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim yn codi.

4. TRAFODAETH GYDA CHYNGHORYDD SIR DDINBYCH, BRIAN JONES, AELOD ADWEINYDDOL DROS WASTRAFF, CLUDIANT A'R AMGYLCHED YNGHYD A MR TIM TOWERS, RHEOLWR RISG AC ASEDAU CYNGOR SIR DDINBYCH, I DRAFOD GWAITH AR Y FFYRDD YN Y GYMUNED SYDD DDIM WEDI CAEL SYLW.

Croesawodd i'r Cyngorydd Sir Ddinbych Brian Jones a Mr Tim Towers o'r Cyngor Sir Ddinbych i'r cyfarfod. Rhoddwyd rhestr o'r ffyrdd ac yn blaen sydd eisiau sylw ers blynyddoedd/misoedd bellach i'r Swyddogion.

Derbyniwyd adroddiad Cyngorydd Jones fod prinder cyllid sydd yn arbed fwy o waith sydd angen ar ffyrdd y Sir, sef, y cyllid presennol ar gyfer 2021/22 yw £2.4 miliwn ar waith cyfalaf ac £4 miliwn ar waith refeniw. Gofynni'r Cyngor Cymuned i ysgrifennu i'r Cyngor Sir am godiad cyllid y gwaith cyfalaf 2022/23 at £4 miliwn.

Derbyniwyd adroddiad Mt Towers ei fod yn rhoi asesiad risg ar y ffyrdd yn y gymuned ar ôl cael rhestr fisol y Cyngor Cymuned ac nid oes yna unrhyw ffyrdd ar y rhestr ddim yn creu risg i'r traffig ar y ffordd, one mae'r gwaith sydd eu hangen ar y ffyrdd ar restr ac yn cael y gwaith sydd eu hangen pryd fydd y cyllid ar gael.

Diolchwyd i'r Swyddogion am fod yn bresennol yn y cyfarfod.

5. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 26ain o Ebrill 2021 gan y Cyngorwyr yn bresennol.

6. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd cadarnhad Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych fod y ffyrdd sydd angen sylw wedi nodi ac ar restr gwaith i'w chwblhau yn y dyfodol.

B. Mae'r Swyddogion Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych yn edrych i mewn ar waith answyddogol sydd wedi cychwyn ar y ddau safle presennol yn ddiweddar:-

1: Llyn Pysgota Cae'r Mynydd yn Saron.

2. Cyn Eglwys Prion ym Mhant Pastynog.

Cytunodd Cyngorydd Sir Ddinbych Joe Welch i ofyn i'r Swyddogion am adroddiad presennol ynglŷn ar waith anghyfreithlon sydd yn digwydd ar y safleoedd ar hyn o bryd.

7. SEDD WAG Y CYNGOR.

Derbyniwyd adroddiad y Clerc nid oedd yna unrhyw gais wedi ei dderbyn i lenwi'r sedd wag y Cyngor ac mi fydd yr hysbyseb y Cyngor i'r sedd wag yn dal yn bodoli.

8. ADRODDIAD CYFARFOD "BROADBAND BROADWAY" A GYNHALIWDYD AR NOS FAWRTH 11EG O FAI 2021.

Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd yn dilyn cyfarfod ar gyd rhwng "Broadband Broadway" ar Gyngorau Cymunedol Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch a Cyffylliog, fe gytunwyd cynnwys llythyr i fynd allan at drigolion y ddwy gymuned i ofyn iddynt gofrestru i'r cynllun band eang "Broadband Broadway". Mi fydd cyfarfod nesaf ar y 3ydd o Fehefin 2021.

9. DIWEDDARAF MATERION "COFID-19" YN Y GYMUNED.

Dim newidiadau ers cyfarfod blaenorol y Cyngor.

10. CYLLID.

A. Datganiad Banc £11,791.16.

B. Derbyniwyd rhan gyntaf 2021/22 o'r Precept y Cyngor £4,192.00.

C. Cais am gefnogaeth arian oddi wrth Dŷ Gobaith - Penderfynwyd ar y rhodd o £250.00.

11. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Nid dderbyniwyd unrhyw gais cynllunio i'w thrafod.

12. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

13. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Rhoddyd rhestr o'r ffyrdd canlynol sydd eisiau sylw i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir Ddinbych:-

A: ffordd rhwng Bryn Mulan a Pen-y-Groes, Prion.

B. Ffordd rhwng Llys a Rosa Fawr ar ffordd Prion.

C. Ffordd heibio Rhiwlas Isaf ym Mhrion.

D. Allt College at Pen-y-Gerddi ym Mheniel.

E. Ffordd heibio Nant at ac heibio Rhewl Valley ym Mheniel.

F. Fferm Ieir at ben lôn Drws-y-Buddel yn Saron.

14. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Nodwyd y Cynghorydd Bari Evans fod pobl leol yn Llanrhaeadr wedi bod yn gwirfoddoli trwy gasglu ysbwriel ar ochrau'r ffyrdd.

15. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – NOS LUN 28AIN O FEHEFIN 2021 TRWY GYFRWNG TEAMS AM 7.30 O'R GLOCH.